# Saffari Bywyd Gwyllt

## Ffocws y Pwnc

Pethau byw a'u cynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid a gweithio'n wyddonol.

## Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn annog plant i weld safleoedd claddu fel llecynnau pwysig i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Maent yn annog y plant i archwilio gwahanol gynefinoedd ac edrych ar y safleoedd claddu o onglau gwahanol. Drwy ymchwilio i fân-drychfilod, cynefinoedd a choed, a hefyd rhywogaethau Prydeinig pwysig fel Draenogod, Cacwn, Cennau a Choed Yw, bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu sgiliau arsylwi a chofnodi a hefyd technegau gwaith maes syml.

Dyma'r gweithgareddau: Coed Cyfareddol, Gwarcheidwaid Gwyrdd, Mania Mân-drychfilod, Canfod Cynefin, Canfod Cennau, Creaduriaid Cartrefol - Draenogod, Cacwn, Nadroedd Defaid, Gwenoliaid Duon.

## CSBC, CA1 a CA2

**Sgiliau Allweddol**

Ymchwilio
Arsylwi
Cwestiynu
Dosbarthu
Adnabod
Cofnodi
Mesur

**Geiriau Allweddol**

Cynefin
Amodau
Mân-drychfil
Cen

## Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth ac ABaCh.

**CSBC**

Deall y Byd
Y Byd



**Dyfarniad John Muir**

***Darganfod***
***Archwilio***
***Gwarchod***
***Rhannu***





Rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynnau canlynol:

***Enfys*** – Edrych a Dysgu

***Beavers*** – Gweithgaredd Archwilio

***Brownies*** – Yr Amgylchedd, Ffrind i Anifeiliaid, Ymchwilydd Gwyddoniaeth, Y Tymhorau, Bywyd Gwyllt

***Cybiau*** – Gweithgaredd Naturiaethwr

***Guides*** – Anifail Prysur, Gwyddoniaeth

***Sgowtiaid*** - Gweithgaredd Naturiaethwr, Gweithgaredd Cadwraeth Fyd-eang

# Canfod Cennau

Mae mynwentydd a safleoedd claddu'n llefydd pwysig iawn i Gennau. Mae gan nifer o safleoedd claddu fwy na 100 o rywogaethau o Gennau ynddynt. Gellir meddwl amdanynt fel llochesi i Gennau. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn cynnig ffyrdd amrywiol i blant ymchwilio, archwilio a dysgu mwy amdanynt.

***Canlyniadau Dysgu***

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Deall bod Cennau'n gallu bod yn bob siâp, maint a lliw
- Defnyddio tystiolaeth i gefnogi eu syniadau

## Adnoddau

Chwyddwydr, papur tynnu llun, tâp mesur, ffenest camera, camera, deunyddiau tynnu llun, e.e. pensiliau, pensiliau lliw, pinnau ffelt duon main, pasteli, papur a llyfrau braslunio.

*Canfod Cennau*

*Ffotograffau Golwg Fanylach ar Gennau*

*Grid Golwg Fanylach ar Gennau*

## Cwestiynau Allweddol

***Beth sy'n tyfu ar gerrig beddau?***

## Cyflwyniad

Edrychwch yn fanylach ar un o'r cerrig beddau sydd ag enghreifftiau da o Gennau a'i chyflwyno i'r plant. Defnyddiwch y wybodaeth yn y pecyn hwn i rannu ffeithiau diddorol amdanynt. Gyda fflachlamp a chwyddwydr, ewch ar Helfa Cennau a chwiliwch weddill y safle claddu i ddod o hyd i ragor o esiamplau. Tynnwch sylw at y ffaith mai nid dim ond ar gerrig beddau maent i'w canfod, ond ar waliau, adeiladau, coed, palmentydd, giatiau ac ati. Faint maent yn gallu eu gweld? Pwy sydd wedi dod o hyd i'r cen yn y lle mwyaf anarferol? Ydyn nhw i gyd yr un fath?

## Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

***1. Dewis her*** – Gyda phartner, bydd y plant yn dewis her oddi ar y daflen *Canfod Cennau*. Gallent ddewis un her o bob un o'r tri grŵp:

Ymchwilio – Darganfod a Gwneud – Siarad!

***2. Beth sy'n tyfu ar gerrig beddau?*** – Mae tri math o Gen – chwiliwch am enghreifftiau ac edrychwch arnynt yn ofalus. Ydych chi'n gallu dod o hyd i gerrig beddau sydd â Chennau Crystiog, Deiliog a Phrysgwyddog arnynt? Cofnodwch eich darganfyddiadau ar y daflen *Golwg Fanylach ar Gennau* a'u cymharu. Defnyddiwch chwyddwydr i edrych arnynt yn fanylach. Gallech dynnu eu llun yn fanwl hefyd.

## Sesiwn i Bawb

Chwiliwch am eich hoff Gen. Dangoswch i grwpiau eraill y Cen a oedd fwyaf diddorol yn eich barn chi. Esboniwch pam a thynnwch lun agos ohono gyda chamera.

## Yn Ôl yn yr Ysgol


- Defnyddiwch y ffotograffau o'r Cennau a archwiliwyd i greu oriel o luniau.
- Defnyddiwch y ffotograff a gyda ffenest camera neu ffrâm fechan, dewiswch ran o'r Cen yn y llun yr hoffech dynnu ei lun/ei fraslunio/baentio yn fanylach. Llenwch eich tudalen gyda golwg fanwl ar y patrymau a'r lliwiau rydych chi wedi'u darganfod.



© Frank Dobson

# Cen – Dewch i Ymchwilio

| Ymchwilio | Darganfod a Gwneud | Sesiwn Sgwrsio |
|---|---|---|
| Cymharwch faint ac ymddangosiad y Cen rydych chi wedi'i ddarganfod ar y cerrig hynaf a'r rhai mwyaf newydd. Beth rydych yn sylwi arno? | Edrychwch ar y Cen drwy chwyddwydr.<br>Tynnwch lun y patrymau rydych chi wedi dod o hyd iddyn nhw. | Mae gennych chi 60 eiliad i ddweud wrth eich partner beth rydych yn ei wybod am Gen. Ewch amdani! |
| Mae mwy o Gen ar ochr ogleddol y fynwent.<br>Ydi hyn yn wir? | Gwnewch fraslun o'ch hoff Gen. | Gyda phartner, sefwch o flaen carreg fedd sydd â llawer o wahanol fathau o Gen. Cymerwch eich tro i ddisgrifio i'ch gilydd yn fanwl ymddangosiad un Cen - heb ddatgelu pa un. Ydi eich partner yn gallu dyfalu pa un ydi o, o'r disgrifiad rydych chi wedi'i roi? |
| Pa arwyneb sydd orau gan y Cen?<br>Sut rydych chi'n gwybod? | Argopïwch amlinell llawer o wahanol fathau o Gen. Ydych chi'n gallu dod o hyd i ddau gyda siâp tebyg? | Ceisiwch berswadio eich partner i hoffi eich hoff Gen. Disgrifiwch pam mai hwn yw eich hoff Gen a pham ddylai eich partner ei hoffi hefyd. |







Lluniau © Frank Dobson

Gofalu am Erw Duw

# Golwg Fanylach ar Gen

## Crystiog







## Deiliog








## Prysgwyddog










Lluniau © Frank Dobson

# Golwg Fanylach ar Gen

| Carreg Fedd | Crystiog | Deiliog | Prysgwyddog |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |

